# Ymateb drafft i Ymgynghoriad OFCOM ar ddwyn y BBC i gyfrif

## Gorffennaf 2017. Mudiadau Dathlu’r Gymraeg

Rydym wedi llunio ymateb sy’n canolbwyntio ar faterion sy’n berthnasol i’r Gymraeg, boed yn ymwneud â gwaith Ofcom drwy’r Gymraeg neu’r Saesneg.

**Cwestiwn 1. Ydych chi’n cytuno â’n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer gosod y drwydded weithredu?**

Credwn ei bod yn fater o ddiddordeb cyhoeddus y dylid disgwyl i Ofcom rhoi mwy o bwyslais ar ddeall defnyddwyr gwasanaethau’r BBC fel dinasyddion nag fel ‘consumers’ (1.18 o’r ddogfen ymgynghoriad Saesneg, tud. 3). Rydym yn cytuno gyda’r geiriad Cymraeg ‘defnyddwyr’ ond am gael esboniad o pam fod y Saesneg yn trin defnyddwyr fel ‘consumers’. Mae hyn am fod y term ‘dinasyddion’ yn rhoi argraff o ddefnydd rhyngweithiol o wahanol lwyfannau, ac o gyfrifoldeb, tra fod y term ‘consumers’ yn rhoi’r argraff y caiff defnyddwyr eu trin yn bennaf fel ffynhonellau o arian (drwy’r ffi drwydded) ac fel pobl bur oddefol (‘passive’).

**Cwestiwn 2. Ydych chi’n cytuno â’r dull gweithredu rydyn ni wedi’i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 1 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni’n eu cynnig?**

Rydym yn cytuno gyda’r amcanion lefel uchel a argymhellir ond rydym am weld rhai gwelliannau.

Dylid sicrhau fod lefelau tebyg o raglenni a chynnyrch yn cael eu darparu drwy’r Gymraeg a’r Saesneg gan y BBC yng Nghymru.

Credwn y dylai Ofcom roi gofyniad i’r BBC yng Nghymru i alluogi cynulleidfaoedd i ddatblygu dealltwriaeth eang o’r berthynas rhwng Cymru a’r DU a Chymru a gweddill y byd.

Yn 2015 darganfu arolwg y ‘British Election Study’ fod pobl di-Gymraeg yng Nghymru yn teimlo llai o foddhad na Chymry Cymraeg gyda ‘democratiaeth Gymreig’. Credwn fod hyn yn rhannol gysylltiedig gyda’r ffaith fod y BBC yn gofyn am llai o oriau o newyddion bob blwyddyn oddi wrth BBC Wales nag y mae o BBC Scotland neu BBC Northern Ireland.

http://www.britishelectionstudy.com/graph/?id=8976&cb=ODk3NjE0NzE0Mjc1ODg=#.V7QylyRwaUk

Cytunwn gyda Pharagraph 4.43.2 ac fe ddymunwn weld gofyniad i OFCOM wneud ymrwymiad cryfach i ddarparu newyddion am y gwledydd datganoledig. I’r diben hwn, ac yn enwedig er mwyn gwarchod newyddion a newyddiaduriaeth materion cyfoes sy’n annibynnol o unrhyw lywodraeth, rydym yn argymell fod Ofcom yn codi’r nifer blynyddol o oriau a glustnodir ar gyfer newyddion yng Nghymru i’r un lefel â BBC Northern Ireland, ac yn gosod gofyniad o lefel isafswm o staffio ar gyfer newyddion a materion cyfoes y BBC yng Nghymru. Rydym o’r farn fod ar BBC Cymru/Wales angen gohebydd llawn amser yn y Senedd yng Nghaerdydd a gohebydd llawn amser yn San Steffan. Dymunwn hefyd ddadlau dros bwysigrwydd cynnwys newyddion (yn arbennig gwleidyddol) o Gymru a'r cenhedloedd datganoledig eraill ym 'mhrif' newyddion rhwydwaith y BBC, a rhaglenni eraill sy'n delio gyda materion cyfoes.

**Cwestiwn 3. Ydych chi’n cytuno â’r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 2 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni’n eu cynnig?**

Rydym am bwysleisio pwysigrwydd sicrhau fod rhaglenni Cymraeg i blant a phob ifanc yn cael eu cynnwys ar blatfformau digidol y BBC (e.e. App BBC Iplayer Kids), yn yr un modd ag y mae rhaglenni Cymraeg yn cael eu cynnwys ar yr Iplayer.

Cytunwn gyda’r rhesymu ym mharagraffau 4.53 a 4.54 ynghylch ymrwymiadau ar gyfer y celfyddydau, cerddoriaeth a chrefydd.

Credwn y dylai OFCOM alw ar y BBC i ddefnyddio arolygon barn allanol, nid yn unig ymchwil mewnol ar gynulleidfaoedd, er mwyn archwilio barn cynulleidfaoedd a defnyddwyr. Dywedwn hyn am fod pobl yn ymateb yn wahanol yn ôl geiriad cwestiynau, ond hefyd yn ôl pwy sy’n eu gofyn. Mae pobl yn fwy tebygol o rhoi eu barn go iawn i gwmni annibynnol.

**Cwestiwn 4. Ydych chi’n cytuno â’r dull gweithredu rydyn ni wedi’i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 3 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni’n eu cynnig?**

Cytunwn gyda’r dull gweithredu ar gyfer diben cyhoeddus 3. Er hynny rydym am nodi’r potensial ar gyfer ei gam-drîn ym mater ‘cymryd risg’ mewn allbynnau a gwasanaethau (4.70(d)). Er enghraifft bu ffrae ym mis Awst 2016 pan geisiodd rhywun oedd yn gweithio i BBC Radio 5 gyrchu barn pobl ar twitter o blaid marwolaeth yr iaith Gymraeg. Roedd hwn yn achos o danseilio ymrwymiad y BBC i ddarlledu a chreu cynnyrch drwy’r Gymraeg, ac mewn effaith yn ymosodiad ar gynulleidfa gyfan a chenedl gyfan. Pe bai cyflogai i’r BBC yn ceisio cyrchu barn o blaid dirywiad a marwolaeth yr iaith Saesneg yn Lloegr neu ar draws y DU, byddai ei ymddygiad yn syrthio o dan ystyriaethau Strategaeth Gwrth-Eithafiaeth llywodraeth y DU. Nodwn fod y Strategaeth hefyd yn rhoi parch i’r Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru. Yn nhroednodyn 52, tudalen 38 o’r Strategaeth, sonir y bydd ceisio adeiladu cymunedau mwy cydlynus yn cynnwys hyfedredd yn yr iaith Gymraeg. Mae’n fater difrifol iawn o niweidio gwead cymdeithasol Cymru felly os yw’r BBC mewn unrhyw ffordd yn mynd ati i danseilio’r Gymraeg.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/470088/51859_Cm9148_Accessible.pdf

**Cwestiwn 5. Ydych chi’n cytuno â’r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 4 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni’n eu cynnig?**

Cytunwn gyda’r amod rheoli arfaethedig i ymrwymo i gynhyrchu mwy o raglenni ym mhob un o genhedloedd yn y DU. Rydym am weld ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amodau rheoleiddio arfaethedig a rhestrir yn 4.112.

Rydym am ofyn beth yw ystyr ymarferol ‘Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at les a chydlyniant cymunedol y Deyrnas Unedig.’ O ran ‘dod â phobl at ei gilydd’ gwelwn fod problem o ran rheoleiddio trafodaethau ac ymddygiad ar rhai rhaglenni materion cyfoes, ble y rhoddwyd ar brydiau rhwydd hynt i rhai unigolion

gamymddwyn drwy weiddi ar westeion eraill a thorri ar eu traws, gan wedyn ennyn ymateb yr un mor wael drachefn. Ymddengys i hyn ddod yn broblem gyda ‘Brexit’, ac fe’i gwelwyd yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Gofynnwn i Ofcom ystyried ychwanegu ymrwymiad i Gôd Ymddygiad i gyflwynwyr a chyfwelwyr yn ogystal ag i westeion. Dylid cael disgwyliad ar ran cyflwynwyr rhaglenni trafod fod eu bod yn gallu rheoli cynulleidfaoedd.

Rydym am weld ychwanegiad i Amcan Lefel Uchel 4, sef ‘cyfrannu at les cenhedloedd y Deyrnas Unedig’. Byddai hyn yn cyflwyno amcan i gyfrannu’n benodol at les Cymru.

**Cwestiwn 6. Ydych chi’n cytuno â dull gweithredu Ofcom ar gyfer sut byddwn yn gosod ac yn diwygio’r drwydded weithredu, fel y nodir yn Atodiad 5?**

Credwn y dylid gwneud gwelliant i A5.5 fel fod gofyn i OFCOM ymgynghori gyda’r cyhoedd pe bai am ystyried gwelliant i’r Drwydded. Mae hyn yn arbennig o bwysig am na ddatganolwyd pwerau dros ddarlledu i Gymru.

Credwn y dylid gwneud gwelliant i A5.6 fel fod OFCOM yn gosod fframwaith amser ar gyfer ymgynghoriad, e.e. 12 wythnos o leiaf.

**Cwestiwn 7. Ydych chi’n cytuno â’n dull gweithredu cyffredinol arfaethedig ar gyfer mesur perfformiad? C.8 Ydych chi’n cytuno â’r fframwaith arfaethedig o: argaeledd; defnydd; effaith; ffactorau cyd-destunol?**

Ydyn.

**Cwestiwn 8. Ydych chi’n cytuno â’r fframwaith arfaethedig o: argaeledd; defnydd; effaith; ffactorau cyd-destunol?**

O ran Dadansoddiad o’r cynnwys (o dan ‘Argaeledd’), mae angen i OFCOM ddarparu awgrymiadau o bwy fyddai’r arbenigwyr allanol rydynt am eu comisiynu, yn ogystal ag enghreifftiau o sut fyddai dadansoddiad achos annibynnol yn ymddangos.

Dylai mesur Effaith ddefnyddio cwmnïau arolwg barn annibynnol yn unol â’n hymateb i Gwestiwn 3.

Carem wybod beth yw’r diffiniad o ‘rhanddeiliaid’. Nid yw barn arbenigol yr un fath â barn ymbleidiol.

**Cwestiwn 9. Ydych chi’n cytuno â dull gweithredu Ofcom ar gyfer sut byddwn yn gosod ac yn diwygio’r mesurau perfformiad?**

Ydyn.